

DOLEN



Rhifyn 14 - 18fed o Ragfyr 2025

Neges y Pennaeth

Annwyl Rieni a Gofalwyr,



Ar ddiwedd Tymor yr Hydref, tymor prysur dros ben yn yr ysgol, hoffwn ddymuno diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. O fewn y rhifyn hwn cewch wybod am rhai o uchafbwyntiau'r wythnosau diwethaf ar draws yr ystod oed.

Mawr obeithiaf y byddwch yn cael cyfle i ymlacio fel teuluoedd a mwynhau'r Nadolig cyn i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol ar y 6ed o Ionawr 2026.

Ar ran holl staff yr ysgol, hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

G Evans



Apwyntiadau Gyda'r Pennaeth

Bore Mawrth rhwng 8.30 a 9.00 (3 slot 10 munud)

Prynhawn Iau rhwng 15:30 a 16:00 (3 slot 10 munud)

I wneud apwyntiad, ewch i



<https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/93-gwnewch-apwyntiad-i-siarad-gyda-r-pennaeth/>

Dyddiadau Pwysig Tymor y Gwanwyn

Dyddiad Date	Digwyddiad	Event
05/01/2026	HMS - ysgol ar gau i ddisgyblion.	INSET - school shut for pupils
06/01/2026	Disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol - Tymor y Gwanwyn	Pupils return to school - Spring Term
09/01/2026 - 15/01/2026	Ffenestr Arholiadau Allanol	External Exams Window
11/01/2026	Cwrs Sgio - Sestriere	Sestriere Skiing Course
19/01/2026	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 9	Year 9 Parents and Carers Evening
02/02/2026	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 10	Year 10 Parents and Carers Evening
03/02/2026	Ffug Gyfweiliadau Bl.11	Year 11 Mock Interviews
16/02/26 - 20/02/26	Gwyliau Hanner Tymor	Half Term Break
23/02/2026	Noson Ddewisiadau Blwyddyn 9	Year 9 Options Evening
23+24/02/2026	Nosweithiau Rheini/ Gofalwyr Meithrin -Bl 6	Nursery-Yr 6 Parents/ Carers Evening

Dyddiadau Pwysig Tymor y Gwanwyn

Dyddiad Date	Digwyddiad	Event
26/02/2026	Eisteddfod Offerynnol yr Urdd - Ysgol Dyffryn Aeron	Urdd Instrumental Eisteddfod- Ysgol Dyffryn Aeron
06/03/2026	DIWRNOD HMS - Ysgol ar Gau i ddisgyblion	INSET DAY - School Closed for Pupils
09/03/2026	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 8	Year 8 Parents and Carers Evening
10/03/2026	Eisteddfod Rhanbarth Urdd Oed Uwchradd - Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth	Secondary Age Regional Urdd Eisteddfod - Aberystwyth Arts Centre
18/03/2026	Eisteddfod Ddawns a Theatr yr Urdd - Ysgol Bro Teifi	Urdd Dance and Theatre Eisteddfod - Ysgol Bro Teifi
23/03/2026	Eisteddfod Cylch Teifi - Aberteifi	Teifi Area Eisteddfod - Aberteifi
30/03/26 - 10/04/26	Gwyliau Pasg	Easter Holidays
18/04/2026	Eisteddfod Rhanbarth Urdd Oed Cynradd - Neuadd y Celfyddydau, Aberystwyth	Primary Age Regional Urdd Eisteddfod - Aberystwyth Arts Centre

Brecwast y Ffermwr

Trefnodd criw Amaeth
TGAU yr ysgol 'Brecwast y
Ffarmwr.' Nod y
weithgaredd oedd
hyrwyddo'r diwydiant a
chodi arian at waith yr
adran Amaeth ar gyfer y
flwyddyn newydd.
Gwelwyd gwaith tîm
gwyh.
Llongyfarchiadau iddyn
nhw am gynnal
digwyddiad llwyddiannus
tu hwnt.



Siarad Cyhoeddus



Cafodd Holly Thomas, Efa Dixon, Lola Griffiths ac Angharad Johnston o flwyddyn 9 brofiad arbennig mewn gweithdy siarad cyhoeddus a dadlau gydag Academi SEREN.

Diolch i SEREN am y cyfle ac i Richard Hull am y cyngor a'r arweiniad.



Noson Wobrwyo 2025

Hyfryd oedd gallu croesawu cyn-ddisgyblion, disgyblion presennol a'u rhieni i noson wobrwyo flynyddol yr ysgol eleni. Roedd yn bleser gallu dathlu llwyddiant ein disgyblion a chael cyfle i ddal fyny gyda'r holl hanesion. Diolch arbennig i'n siaradwr gwadd, Mr Caleb Rees am gyflwyno araith ysbrydoledig i'r bobl ifanc. Da iawn i bawb!

Llongyfarchaiadau i'r disgyblion canlynol am dderbyn gwobrau am eu hymdrech llynedd:



Blwyddyn 7
Marged Dafis
Celyn Davies
Flynn Davies
Gwenlli Thomas



Blwyddyn 8
Efa Dixon
Dion Evans
Gwion Evans
Magi Williams



Blwyddyn 9
Dewi Ifan
Grace Francis
Lili Robinson
Magw Thomas



Blwyddyn 10
Sioned Elias-Davies
Mabli Hughes
Seth James
Carys Williams

Noson Wobrwyo 2025

Enillwyr Gwobrau ac Ysgoloriaethau Ysgol Bro Teifi 2025



Ysgoloriaeth Dr John ac Edith Griffiths - Safon Uwch
Cadi Rees



Ysgoloriaeth Dr John ac Edith Griffiths - Safon TGAU
Emrys ab Iestyn



Tlws Cerddor y Flwyddyn
Alaw Evans



Tlws Chwaraeon Bro Teifi
Osian Taylor



Gwobr Busnes (Cylch Cinio Llandysul) - Blwyddyn 13
Dafydd Jones a Bedwyr Llywelyn



Gwobr y Gymraeg (Cyngor Llyfrau Cymru)
Fflur Evans



Gwobr Deintyddiaeth (Deintydd Pont Steffan)
Jano Evans



Gwobr Meddygaeth (Meddygfa Llynnyfran)
Molly Valentine

Gwobr y Gyfraith (Teifi Law/IJSF)
Megan Davies ac Osian Taylor



Noson Wobrwyo 2025

Gwobr NFU Ceredigion

Lydi-Mai Davies, Wil Gruffydd, Liam Jones, Isac Parry, Steffan Rees, Cerys Wyke

Ysgoloriaeth Cylch Cinio Llandysul

Emrys ab Iestyn, Lottie Clarke, Daniel Cornell, Steffan Williams



**LLONGYFARCHIADAU MAWR IAWN I'R HOLL
DDISGYBLION AR EU LLWYDDIANT!**

Diolch i'r busnesau isod am noddi gwobrau yn ein noson wobrwyo eleni. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Teifi Law Ltd
James Jones Son & Francis



Meddygfa

Llynnyfran

Surgery



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES



Syrffio ar y Sgwâr!

Cafwyd pedwar perfformiad arbennig o'r Sioe 'Syrffio ar y Sgwâr' yn ystod mis Rhagfyr. Roedd hi mor braf i weld yr holl waith caled yn talu ffordd. Llongyfarchiadau i'n holl ddisgyblion ar berfformiadau penigamp a diolch i bawb am eu holl waith caled.





Ffair Nadolig

Rydyn ni'n hynod o ddiolchgar am lwyddiant Ffair Nadolig ein hysgol eleni. Roedd hi'n wych gweld cymaint o ddisgyblion, rhieni a ffrindiau'r ysgol wedi dod ynghyd i gefnogi'r ysgol.

Roedd perfformiadau plant dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 yn arbennig – diolch i'r plant am eu canu hyfryd a'n rhoi yn naws y Nadolig!



Ac wrth gws, roedd pawb wrth eu bodd gyda Groto Siôn Corn, lle cafodd y plant gyfle i gwrdd â'r dyn ei hun a'r coblynnod! 🎅✨





Chwaraeon



Tîm Rygbi bechgyn dan 15

Sicrhaodd y tîm eu lle yn rownd y 32 olaf yng Nghwpan Ysgolion Cymru, drwy guro Ysgol Bro Preseli, 45-29.

Ymlaen wedyn i chwarae yn erbyn Ysgol Gyfun Brynteg yn y gwynt a'r glaw! Roedd YBT ar y brig ar yr hanner amser, ond erbyn y chwiban olaf, y sgôr oedd 19-31 i Frynteg.

Caiacio

Llongyfarchiadau mawr i Eiri O'Connor a Cari Jones am gael eu dewis i garfan perfformiad caiacio slalom Cymru, ac i Leri Jones-Kenny ar gael ei dewis i garfan talent Cymru yn ddiweddar.

Mae'r tair hefyd wedi bod yn hyfforddi yn Llundain gyda thîm Cymru. Bu Eiri hefyd mewn camp hyfforddi Cymru a Lloegr yn Ffrainc.



Trawsgwlad Cymru

Llongyfarchiadau anferthol unwaith eto i Amelia Williams ar ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Cymru yn y Drenewydd yn ddiweddar.

Chwaraeon

Twrn maint Rygbi Merched Ceredigion



Llongyfarchiadau i ferched blwyddyn 7 ar ennill pob gêm gan ddod yn Bencampwyr Ceredigion.
Pob lwc yn y rownd nesaf.

Hoci Merched dan 16 ac o dan 18



Llongyfarchiadau enfawr i'n timau Hoci Merched dan 16 ac dan 18 ar eu perfformiadau gwych yn nhwrnameintiau Dyfed diweddar! 🏏

Bu'r ddau dîm yn chwarae gemau hynod o agos, gan ddangos gwaith tîm, gwydnwch a phenderfyniad o'r radd flaenaf drwy gydol y cystadlu. Rydym mor falch o'r ddau dîm yn gorffen yn 3ydd – gan fethu drwy drwch blewyn o sicrhau lle yng Nghystadleuaeth Derfynol De Cymru.

Mae cyrraedd y cam hwn yn gamp fawr ac yn dyst i'r holl waith caled mae'r chwaraewyr wedi'i roi i mewn drwy'r tymor. Da iawn, ferched – rydych wedi cynrychioli'r ysgol yn wych!



Chwaraeon

Llysgenhadon Chwaraeon

Diolch i'n llysgenhadon chwaraeon, Daniel Richards, Dewi Rees, Mia Monk ac Elsi Thomas, am gynorthwyo gyda gwersi addysg gorfforol disgyblion y Meithrin a'r Derbyn yn ystod y tymor. Maen nhw wedi bod yn wych.



Karate

Llongyfarchiadau mawr i Hari Davies o flwyddyn 4 am ennill tarian myfyriwr y flwyddyn yn Karate.



Rhedeg

Llongyfarchiadau i Wil Davies o flwyddyn 3 am ddod yn drydydd yn Ras y Mast gyda Chlwb Sarn Helen. Wil hefyd oedd y rhedwr ifancaf yn y gystadleuaeth.



Cerdd



Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

Yn dilyn clyweliad, mae Alaw Evans o flwyddyn 13 wedi cael ei derbyn i Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru eleni eto. Llongyfarchiadau iddi hefyd am lwyddo yn ei gradd 8 piano yn ddiweddar. Arbennig!

Cyngerdd Côr a Cherddorfa Gwasanaeth Cerdd Ceredigion – Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Cafodd rhai o'n disgyblion gyfle arbennig ar ddiwedd y tymor i berfformio ar lwyfan y Neuadd Fawr yn Aberystwyth.

Bu Elen Contreras-Jenkins o Flwyddyn 5 yn perfformio gyda Cherddorfa Cynradd Gwasanaeth Cerdd Ceredigion. Maent yn ymarfer yn wythnosol yn Ysgol T. Llew Jones – da iawn ti Elen!

Yna, ar ôl penwythnos prysur o baratoi yng Nghanolfan yr Urdd, Llangrannog, bu Hawys Davies a Loren Jones o Flwyddyn 12 a Magw Thomas o Flwyddyn 10 yn perfformio gyda Cherddorfa Hŷn Gwasanaeth Cerdd Ceredigion. Perfformiadau hudolus o garolau a chaneuon y Nadolig o dan baton Mr Aidan Hassan. Diolch i'r holl staff teithiol bu'n gymorth i'n disgyblion.

Yn olaf, bu Magi Williams o flwyddyn 9 yn canu gyda Chôr Gwasanaeth Cerdd Ceredigion ym mherfformiad 'Atgof o'r Sêr'. Erys y perfformiad yn y cof am amser hir gan mai'r cyfansoddwr ei hun, Robat Arwyn, oedd yn arwain y cyfan. Profiad arbennig i Magi – da iawn ti!



Peirianneg

Cafodd ein tîm Peirianneg EESW cyfleoedd a phrofiadau arbennig ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ddiweddar.

Gwelsant ENFYS sef camera bydd yn cyrraedd y blaned Mawrth yn 2030.

Hefyd, buont yn rhan o weithdai electroneg a rhaglenni i helpu'r tîm ar eu prosiect diweddaraf gyda SERB.

Diolch i Brifysgol Aberystwyth am ddiwrnod arbennig.



Rhifau Cyswilt Defnyddiol

Gwasanaeth Gwaith Ieuencid ac Ymgysylltu Ceredigion

(Heblaw y nodir yn wahanol, mae'r llinellau cymorth yma ar agor 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn)

Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion: 01545 574000 / Tu Allan i Orlau: 0300 4563554

* Alcohol a Chyffuriau DAN 24/7: Ffôn 0808 808 2234 / Neges Destun i DAN 81066

* Samaritans: 116 123

* Childline: 0800 1111

* Papyrus Prevention of Young Suicide: 0800 068 4141 (*9yb-Hanner Nos*)

* Llinell Gymorth Byw Heb Ofn: 0808 80 10 800

Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru: 01970 625 585 / 01239 615385

* Cyngor Tai Brys Shelter Cymru: 0345 075 5005

* Meic: 080880 23456 (*8yb-Hanner Nos*) / Neges Destun: 04001

* Llinell Gymorth Iechyd Meddwl C.A.L.L: 0800 132 737 / Neges Destun: 81066

* Llinell Gymorth Neges Destun 24/7 SHOUT: 85258

* Ymholiadau Iechyd CIG: 111 / CIG Uniongyrchol: 0845 46 47

* Di-Argyfwng: 101

* **Argyfwng: 999**

*I gael rhagor o wybodaeth am fanciau bwyd Ceredigion a
chymorth arall, ewch i: [Cymorth Costau Byw - Cyngor Sir Ceredigion](#)*



*Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Idda*